




# Gwerthu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## Canllaw i Gontractwyr a Chyflenwyr

**Ionawr 2024**

We are a Living Wage Employer

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

# Cynnwy


| | Tudalen |
|---|---|
| Sut mae caffael yn cael ei drefnu? | 3 |
| Lle gallaf gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd contract? | 4 |
| Pa reolau, rheoliadau a gweithdrefnau caffael mae'r cyngor yn eu dilyn? | 5 |
| Sut mae cyflenwyr yn cael eu dewis a'u penodi?<br>- Rhoi gwybod i gyflenwyr<br>- Dewis cyflenwyr addas a chymwys<br>- Cyflwyno ymateb a gwerthusiad i ddyfynbris neu dendr<br>- Dyfarnu’r contract | 7 |
| Gwerth Cymdeithasol / Cyflog Byw | 10 |
| Pam rydym yn defnyddio Cytundebau Fframwaith? | 11 |
| Cynigion Consortia a Chydweithredol | 11 |
| A all sefydliadau tendro dderbyn ôl-drafodaeth? (adborth) | 12 |
| Sut mae'r cyngor yn talu eu cyflenwyr? | 12 |
| Rheoli a monitro contractau | 12 |
| Cyngor ar dendro | 13 |
| Cymorth pellach | 14 |
| Hoffem glywed gennych | 14 |
| Gwefannau defnyddiol | 15 |
| Cysylltiadau defnyddiol | 16 |




# Sut mae Caffael yn cael ei

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gwario dros £180 miliwn y flwyddyn ar brynu ystod o nwyddau, gwasanaethau a gweithiau gan sefydliadau allanol.

Rydym yn gwario arian cyhoeddus felly mae'n rhaid i'n prosesau caffael fod yn effeithlon, yn effeithiol ac yn dryloyw.  Mae'r gwariant wedi'i wasgaru ar draws pum maes gwasanaeth allweddol fel y nodir yn y siart isod.

## **Gwariant caffael yn ôl** cyfarwyddiaeth 2020/21




- Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles **£65,612,492)**
- Cymunedau **£51,967,873)**
- Addysg a Chymorth i Deuluoedd **(£37,880,023)**
- Prif Weithredwr **(£23,582,844)**
- CF Amhenodol **(£7,212,619)**

Ffigur 1:  Gwariant y Cyngor 2020/21 yn ôl Cyfarwyddiaeth

> **"Nod CBSP yw cynyddu nIfer y cyfleoedd gwerth Is sy'n cael eu hysbysebu ar GwerthwchIGymru”**

# Lle gallaf gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd

Mae ein cyfleoedd contract yn cael eu hysbysebu ar un o ddwy system:

- GwerthwchiGymru yw gwefan Gaffael Genedlaethol Cymru, mae hyn yn cynnwys yr holl gyfleoedd contract a hysbysebir yn eang â gwerth iddynt sydd uwchlaw ac islaw trothwyon y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (RhCC/PCR). Mae gan GwerthwchiGymru gysylltiad uniongyrchol â'r Gwasanaeth Dod o hyd i Dendr (GDHD/FTS) lle mae'n rhaid cyhoeddi contractau sy'n uwch na throthwyon RhCC.
- eDendroCymru yw'r porth a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Ar gyfer cyflenwyr / contractwyr cofrestredig, mae gwahoddiadau am ddyfynbrisiau ar gael.

Mae'r cyngor yn annog cyflenwyr i gofrestru ar GwerthwchiGymru ac eDendroCymru. Mae'r ddwy wefan am ddim ac yn caniatáu i gyflenwyr dderbyn hysbysiadau tendro awtomataidd trwy e-bost, gweld cyfleoedd trwy'r hafan Cyfleoedd, diweddaru a chynnal eu proffil, derbyn cyfarwyddiadau ar sut i gael gafael ar ddogfennau tendro a gweld manylion contractau a ddyfarnwyd.

**I gael mynediad i GwerthwchiGymru ac eDendroCymru cliciwch ar yr eiconau isod:**

Sell2Wales

ePS | eDendro Tendering

Gellir dod o hyd i'r ddolen we am gyfarwyddiadau ar sut i gofrestru ar eDendroCymru ar ddiwedd y canllaw hwn.

Mae cymorth a chefnogaeth ar gael gan nifer o sefydliadau; am ragor o wybodaeth, gweler yr adran **'Cefnogaeth bellach'.**

Os hoffech chi ragor gwybodaeth am ein contractau a'n fframweithiau cyfredol, mae gan y cyngor Gofrestr Contractau a Fframweithiau. Mae'r rhain yn cynnwys manylion cyflenwyr cyfredol, rheolwr y contract a dyddiadau dod i ben.

**"Rydym yn cynghorI cyflenwyr I gofrestru ar GwerthwchIGymru ac eDendroCymru** ar gyfer cyfleoedd caffael"



**Cliciwch ar y llun i weld y Gofrestr Contractau**

# Pa reolau, rheoliadau a gweithdrefnau caffael mae'r

Llywodraethir y ffordd y mae'r cyngor yn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan y gyfraith.

Mae’r **Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (RhCC)** 2015 yn annog cystadleuaeth agored a thryloyw trwy dendro cystadleuol. Rhaid i holl gaffael y sector cyhoeddus gadw at egwyddorion triniaeth gyfartal, dim gwahaniaethu, cydnabyddiaeth gilyddol, cymesuredd a thryloywder. Mae'n cynnwys gofynion penodol ar gyfer y ffordd y mae contractau dros y trothwyon isod yn cael eu cynnal.

| Nwyddau | Gwasanaethau | Gwaith |
| --- | --- | --- |
| £214,902 | £214,902 | £5,336,937 |

Ffigur 2: Trothwyon RhCC (gwerthoedd sy'n weithredol o 1 Ionawr 2024 i 31 Rhagfyr 2024)

Rheolau Gweithdrefn Contract y cyngor sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario gyda chywirdeb ac atebolrwydd amlwg waeth beth fo'r gwerth yn unol â'r RhCC.

Cyn dod o hyd i gyflenwyr allanol bydd y cyngor yn nodi a ellir diwallu'r angen drwy gontract neu gytundeb fframwaith sy’n bodoli eisoes (gweler **Pam rydym yn defnyddio cytundebau fframwaith?**).

Os na ellir bodloni'r angen drwy gontract neu gytundeb fframwaith sy’n bodoli eisoes, bydd proses Cais am Ddyfynbris neu broses Dendro yn cael ei chynnal yn dibynnu ar werth y contract, fel y nodir yn y tabl yn Ffigur 3 ar y dudalen nesaf:

**"Mae angen I'r cyngor brynu mewn ffordd gyfrelthlol, sy'n rheoll rlsg ac yn slcrhau gwerth am arlan"**

| Maes Caffael | Cyfanswm Gwerth | Cystadleuaeth | Hysbysebu |
|---|---|---|---|
| Nwyddau a Gwasanaethau | Hyd at £10,000 | Nid oes angen dyfynbrisiau cystadleuol, ond rhaid iddynt ddangos gwerth am arian oni bai fod unrhyw amodau'r grant yn pennu fel arall. | Dim |
| | £10,001 - £25,000 | Mae angen o leiaf 3 dyfynbris cystadleuol a'u cynnal drwy borth eDendroCymru oni bai fod amodau'r grant yn pennu fel arall. | Dim |
| | £25,001 - £100,000 | Mae angen o leiaf 3 dyfynbris cystadleuol drwy borth eDendroCymru oni bai fod amodau'r grant yn pennu fel arall. | Rhaid eu hysbysebu'n agored ar GwerthwchiGymru lle bo hynny'n ymarferol ac ar yr amod ei fod yn cynrychioli gwerth am arian. |
| | £100,001 – Trothwy | Mae cystadleuaeth agored yn ofynnol trwy borth eDendroCymru, oni bai bod amodau'r grant yn pennu fel arall. | Wedi'i hysbysebu'n agored ar GwerthwchiGymru. |
| | Uwchlaw'r trothwy | Mae gweithdrefn lawn yr UE yn ofynnol trwy borth eDendroCymru | Hysbysebu yn y Gwasanaeth Dod o hyd i Dendr drwy GwerthwchiGymru |
| Gwaith | Hyd at £10,000 | Nid oes ond angen dyfynbrisau cystadleuol, ond mae angen dangos gwerth am arian, gan ddefnyddio contractwyr sydd ag achrediad Cynlluniau Diogelwch mewn Caffael (SSIP) ac sydd wedi'u cofrestru a'u gwirio ar Constructionline oni bai fod unrhyw amodau grant yn pennu fel arall. | Dim |
| | £10,001 - £25,000 | Mae angen o leiaf 3 dyfynbris cystadleuol gan ddefnyddio contractwyr sydd ag achrediad Cynlluniau Diogelwch mewn Caffael (SSIP) ac sydd wedi'u cofrestru a'u gwirio trwy borth eDendroCymru, oni bai fod unrhyw amodau grant yn pennu fel arall. | Dim |
| | £25,001 - £250,000 | Mae angen o leiaf 5 dyfynbris cystadleuol gan ddefnyddio contractwyr sydd ag achrediad Cynlluniau Diogelwch mewn Caffael (SSIP) ac sydd wedi'u cofrestru a'u gwirio trwy borth eDendroCymru, oni bai fod unrhyw amodau grant yn pennu fel arall. | Dim |
| | £100,001 – Trothwy | Mae cystadleuaeth agored yn ofynnol trwy borth eDendroCymru, oni bai bod amodau'r grant yn pennu fel arall. | Wedi'i hysbysebu'n agored ar GwerthwchiGymru. |
| | Uwchlaw'r trothwy | Mae gweithdrefn lawn yr UE yn ofynnol trwy borth eDendroCymru | Hysbysebu yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) drwy GwerthwchiGymru |

Ffigur. 3: Prosesau Caffael

Mae'r UE yn dweud wrthym fod yn rhaid dilyn yr **isafswm amserlenni.** Bydd yr amserlenni gwirioneddol hefyd yn amrywio yn ôl maint a chymhlethdod y broses gaffael.

# Sut mae cyflenwyr yn cael eu dewis a'u

Mae’r camau ar gyfer dewis a phenodi cyflenwyr fel a ganlyn:

1. Rhoi gwybod i gyflenwyr am ddyfynbrisiau neu gyfleoedd tendro
2. Dewis cyflenwyr addas a chymwys
3. Cyflwyno ymateb a gwerthusiad i ddyfynbris neu dendr
4. Dyfarnu’r contract

Pan fydd y contract yn cael ei hysbysebu, bydd darpar gynigwyr yn cael eu cyfeirio at eDendroCymru. Nid yw cofrestru ar eDendroCymru yn unig yn cael ei ystyried yn ddatganiad o ddiddordeb. Os yw cyflenwr yn gweld cyfle y mae ganddo ddiddordeb ynddo, bydd angen iddo ddewis y cyfle hwnnw. Ni fydd dogfennau tendro ar gyfer contractau a hysbysebir yn cael eu hanfon at gyflenwyr drwy e-bost; rhaid i gyflenwyr gael mynediad at y dogfennau drwy eDendroCymru. Er hynny, gallwch gael mynediad at y dogfennau heb gofrestru diddordeb yn y cyfle.

## Rhoi gwybod i gyflenwyr am ddyfynbrisiau neu gyfleoedd tendro

Gall y cyngor roi gwybod i gyflenwyr am ddyfyniadau neu gyfleoedd tendro mewn un o ddwy ffordd, naill ai drwy:

- Ymgynghori â phorth eDendroCymru a dewiswch gyflenwyr priodol i’w gwahodd i gyflwyno dyfynbris neu dendro yn unol â'r isafswm nifer sydd ei angen (fel y dangosir yn y tabl ar dudalen 6),

neu;

- Rhowch hysbyseb ar GwerthwchiGymru y gall unrhyw gyflenwr ei weld. Bydd yr hysbyseb yn rhoi cyfarwyddiadau i gyflenwyr ar sut i gael gafael ar y dogfennau tendro a chyflwyno ymateb. Bydd contractau sy'n cael eu hysbysebu ar GwerthwchiGymru sydd uwchlaw trothwyon RhCC yn cael eu cyhoeddi'n awtomatig drwy wasanaeth Dod o hyd i Dendr.



# Dewis cyflenwyr addas a chymwys

Er mwyn asesu addasrwydd y cyflenwr, bydd y cyngor naill ai yn:

- Cyhoeddi holiadur Dogfen Gaffael Sengl (DGS) neu Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (CDdGGC)
- Defnyddio cwestiynau dethol fel rhan o'r broses dendro (gweithdrefn agored) (gwaith, mae cyflenwyr sydd wedi'u cofrestru a'u gwirio yn cael eu dewis o Constructionline)

Er mwyn sicrhau bod y cyngor yn gwneud hyn mewn ffordd sy'n gyson ac yn gymesur, rydym yn defnyddio cyfres o gwestiynau ar ffurf Dogfen Gaffael Sengl (DGS).

Bydd y cyngor yn defnyddio'r DGS ynghyd â chwestiynau o Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (CDdGGC/SQuID). Mae hyn yn rhoi cyfres safonol o gwestiynau a chanllawiau mewn perthynas â'u cais a'u defnydd ar gyfer y meysydd canlynol:

- **Derbynioldeb Cyflenwyr:** Seiliau dewisol dros eithrio cynigydd ar sail troseddau fel cynllwyn, llygredd, twyll, llwgrwobrwyo, methdaliad ac ansolfedd.
- **Sefyllfa Economaidd / Ariannol:** Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i gyflenwyr posib gofrestru gyda Dun & Bradstreet (D&B) a / neu ddarparu ffigurau elw a cholled y ddwy flynedd ddiwethaf. Bydd hyn yn dibynnu ar y math o wasanaethau sy'n cael eu tendro.
- **Yswiriant:** Efallai y gofynnir i ddarpar gyflenwyr ddarparu tystiolaeth o isafswm lefelau Atebolrwydd Cyflogwr ac Atebolrwydd Cyhoeddus ac Indemniad Proffesiynol.
- **Cymwyseddau a chymwysterau technegol:** Darparu tystiolaeth o gymwyseddau neu gymwysterau sy'n benodol i gontract. e.e. Gas Safe.
- **Adnoddau a Gallu:** Manylion am brofiad blaenorol a chontractau a gyflawnwyd.
- **Rheolaeth:** Gwybodaeth am dechnegau sicrhau ansawdd ac adolygiad perfformiad.
- **Cyfle Cyfartal:** Cadarnhau ymrwymiad cyflenwyr i gyfle cyfartal.
- **Cynaliadwyedd:** Cadarnhau ymrwymiad cyflenwyr i gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.
- **Iechyd a Diogelwch:** Bydd maint yr asesiad yn briodol i natur y contract, yn dibynnu ar y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith a ddarperir. Lle mae'r cyngor yn nodi bod yn rhaid asesu Iechyd a Diogelwch, rhaid i gontractwyr gael eu hachredu gan aelod o Gynlluniau Diogelwch mewn Caffael (SSIP) (neu gyfwerth) cyn dyfarnu unrhyw gontract

Os yw'r cyflenwr yn bodloni'r gofynion uchod, byddant yn symud ymlaen i gam tendro/dyfarnu'r broses gaffael.

# Cyflwyno ymateb a gwerthusiad i ddyfynbris neu dendr

Yn dibynnu ar werth y contract, bydd cyflenwyr dethol naill ai'n cael eu gwahodd i gyflwyno dyfynbris neu'n derbyn Gwahoddiad i Dendro (GiD) drwy eDendroCymru.

Gall cyflenwyr dderbyn y cyfan neu rai o'r canlynol:

- Cyfarwyddiadau ar gyfer cyflwyno'r dyfynbris
- Manyleb Gofynion (y mae'n rhaid i gyflenwyr seilio eu dyfynbris arni)
- Datganiadau Dull (cwestiynau sy'n gofyn sut y bydd y gofynion yn cael eu cyflawni)
- Meini prawf gwerthuso a methodoleg sgorio (os oes elfen o ansawdd y mae'n rhaid ei hasesu hefyd)
- Telerau ac Amodau
- Ffurflen Dendro
- Dogfennau Datganiad

Mae tendro yn broses llawer mwy cynhwysfawr. Bydd cyflenwyr sy'n mynegi diddordeb yn y cyfle yn derbyn pecyn tendro sy'n cynnwys ystod o ddogfennau y soniwyd amdanynt uchod. Gellir cael mynediad at y dogfennau hyn drwy eDendroCymru.

Yn y cam tendro/dyfarnu, bydd y cyngor yn gwerthuso cynnig y cyflenwr o sut y maent yn bwriadu cyflawni'r gofynion penodol ac ar ba gost. Mae hyn yn wahanol i'r **cam dethol** sy'n cymhwyso'r cyflenwr yn seiliedig ar adnoddau a gallu sy'n deillio o **brofiad blaenorol**.
Bydd ymatebion tendro naill ai'n cael eu hasesu ar sail llwyddo/methu neu'n cael eu sgorio. Bydd y cyfan y mae angen i'r sawl sy'n tendro ei wybod am sut y cânt eu gwerthuso'n cael ei ddatgan yn glir yn y pecyn dogfennau tendro.

Yn unol â Safonau'r Gymraeg (Hysbysiad Cydymffurfio *Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)* gellir cyflwyno tendrau yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni tendr a gaiff ei gyflwyno yn y Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na hysbysu'r sawl a fu'n tendro am y penderfyniadau). Bydd y cyngor yn cyfathrebu â rheini sy'n tendro yn eu dewis iaith, boed hynny yn Saesneg, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae

Bydd gwerthusiad tendro yn seiliedig ar un o'r canlynol:

1. **Pris ac Ansawdd –** a ddefnyddir ar gyfer y mwyafrif (os nad y cyfan) o wasanaethau a gwaith. Fe'i gelwir yn Tendr Mwyaf Economaidd Fanteisiol (TMEF) gyda phwysau wedi'u neilltuo, er enghraifft, pris 40% ac ansawdd 60%.

2. **Pris yn unig** (cost isaf)

Er mwyn asesu'r meini prawf ansawdd, gofynnir i gyflenwyr gyflwyno ymateb tendr electronig drwy eDendroCymru. Lle bo hynny'n briodol, gellir eu gwahodd hefyd i gyfweliad a/neu gyflwyniad.

## Dyfarnu'r contract

**Dyfynbris –** fel arfer bydd y contract yn cael ei ddyfarnu i'r cyflenwr sy'n cyflwyno'r pris derbyniol isaf. Fodd bynnag, os oes elfen o ansawdd yn rhan o'r gwerthusiad, yna efallai nad y cyflenwr a gyflwynodd y dyfynbris isaf o reidrwydd yw'r un sy'n ennill y contract.

**Tendrau –** ar gyfer y rheini a werthuswyd ar y eraill, y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau amserlen ar gyfer Tendr Mwyaf

Economaidd thendr a gaiff ei gyflwyno yn Fanteisiol (TMEF), bydd y contract yn cael ei ddyfarnu i'r sawl sy'n tendro sydd â'r sgôr gyffredinol uchaf. Ar gyfer y rheini sy'n seiliedig ar bris yn unig, bydd y contract yn cael ei ddyfarnu i'r sawl a gyflwynodd y pris isaf.

**"Mae'r cyngor wedi ymrwymo i weithredu gwelliannau pellach mewn e-Gaffael"**

# Gwerth

Mae'r cyngor wedi mabwysiadu Polisi Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol, ag iddo chwe blaenoriaeth allweddol:




- Cefnogi Lleol
- Gweithio'n Deg / Cyflogaeth Foesegol
- Buddion i'r Gymuned
- Gwyrdd a Chynaliadwy
- Cydymffurfio / Llywodraethu Tryloyw
- Gwerth am Arian ac Arloesi

Bydd hyn yn helpu'r cyngor i wneud yn fawr o'r lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y mae'n eu cyflawni drwy ei waith caffael. Rydym am weithio gyda sefydliadau sy'n rhannu ei werthoedd o ran hyrwyddo gwerth cymdeithasol ac arferion gwaith teg.

Disgwylir i'r sawl sy'n tendro ar holl gontractau'r cyngor gyfrannu at yr agendâu Gwerth Cymdeithasol a Sero Net y mae'r cyngor wedi ymrwymo iddynt. Am ragor o wybodaeth ar ein agenda Sero Net, ewch i: **https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/perfformiad-cynlluniau- ac-adroddiadau/strategaeth-garbon-sero-net/**

Mae'r Gwerth Cymdeithasol y mae'r cyngor am i'w gontractwyr ei ddarparu yn cynnwys:

- Gweithio gydag ysgolion lleol, cyfrannu at gynlluniau adfywio cymunedol a mentrau cadwyn gyflenwi / amgylcheddol
- Cyfleoedd i recriwtio a hyfforddi personau economaidd anweithgar hirdymor fel rhan o'r gweithlu sy'n darparu contractau
- Cyflawni 12 ymrwymiad y **Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi** gan gynnwys:
- Talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a'i hyrwyddo drwy gydol ei chadwyn gyflenwi
- Gwneud yn fawr o gyfleoedd cadwyn gyflenwi ar gyfer busnesau bach a chanolig gan gynnwys mentrau cymdeithasol, i wneud cais am gyfleoedd cadwyn gyflenwi

# Y Cyflog Byw

Mae cyflogwyr yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn wirfoddol. Mae'n gyfradd yr awr a bennir yn annibynnol ac a ddiwedderir yn flynyddol. Mae'n cael ei gyfrifo yn ôl costau byw sylfaenol yn y DU ac ar hyn o bryd mae'n £10.90. Ni ddylid cymysgu'r Cyflog Byw Gwirioneddol â'r Cyflog Byw Cenedlaethol (yr Isafswm Cyflog) sy'n ofyniad cyfreithiol i gyflogwyr.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w holl weithwyr ers mis Ebrill 2020 ac mae wedi'i achredu fel Cyflogwr Cyflog Byw ers mis Mawrth 2022. Mae hyn yn golygu y telir yr holl staff uniongyrchol a thrwy asiant y Cyfog Byw Gwirioneddol fel isafswm, ac eithrio prentisiaid a phobl dan 18 oed.

Mae'r cyngor yn cysylltu â'i gyflenwyr/contractwyr er mwyn hyrwyddo mabwysiadu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ledled cymuned fusnes Pen-y-bont ar Ogwr.

Ein nod yw cynorthwyo ac annog cynifer o fusnesau lleol â phosib i ymrwymo i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w cyflogeion.

Mae'r cyngor am i Ben-y-bont ar Ogwr gael ei chydnabod fel Tref Cyflog Byw. Er mwyn cefnogi'r uchelgais hwn, mae gan y cyngor Gynllun Cymorth Achredu'r Cyflog Byw i gynorthwyo busnesau bach a chanolig ym Mhen-y-bont ar Ogwr i gael eu hachredu.

I gael rhagor o wybodaeth am y Cyflog Byw Gwirioneddol cliciwch ar y llun 'Rydym yn Gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol'

We are a Living Wage Employer

## Pam rydym yn defnyddio Cytundebau

Pan fydd nwyddau, gwasanaethau neu waith yn cael eu prynu'n rheolaidd, gall y cyngor sefydlu cytundeb fframwaith. Mae'r rhain yn nodi'r telerau ac amodau eang y byddwn yn eu dilyn i brynu nwyddau, gwasanaethau neu waith gan y cyflenwyr hynny yn y dyfodol. Gall cytundebau fframwaith fod ag un cyflenwr neu nifer o gyflenwyr a gallant bara hyd at 4 blynedd.

Cyn mynd allan am dendr neu ddyfynbris, bydd y cyngor yn sefydlu yn gyntaf a oes fframwaith presennol ar waith a all fodloni'r gofynion. Mae'r mathau canlynol o fframweithiau ar gael:

Fframweithiau Lleol Cyngor Pen-y-bont

- Fframweithiau Rhanbarthol
- Fframweithiau Cenedlaethol Cyflenwi Masnachol Llywodraeth Cymru
- Fframweithiau Cenedlaethol eraill e.e. Gwasanaeth Masnachol y Goron (GMG), Consortiwm Prynu Eastern Shires (ESPO)

Er mwyn paratoi ymlaen llaw ar gyfer y cyfleoedd sydd i ddod, rydym yn cynghori cyflenwyr i ddarganfod pryd y bydd fframweithiau yn dod i ben. Ar gyfer fframweithiau Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, gall cyflenwyr weld y Gofrestr ar gyfer Fframwaith Contractau ac ar gyfer pob fframwaith cenedlaethol arall, gall cyflenwyr gael mynediad i'w gwefannau trwy ddilyn y dolenni ar ddiwedd y canllaw hwn.

## Y System Brynu Ddynamig (SBDd)

Mae SBDd yn debyg i Fframwaith, ond mae'n caniatáu i gyflenwyr newydd ymuno ar unrhyw adeg yn ystod y SBDd, ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf y SBDd.

Mae rhwymedigaethau gwahanol ar brynwyr a chyflenwyr wrth sefydlu a chaffael trwy SBDd. Bydd y sefydliad prynu yn asesu anghenion pob caffaeliad cyn penderfynu a ddylid defnyddio SBDd.

## Cynigion Consortia a

Gall cynigion consortia helpu i gynyddu'r siawns o ennill gwaith ac yn arbennig o fudd i BBaChau a'r Trydydd Sector nad oes ganddynt, efallai, y sgiliau neu'r adnoddau i gyflwyno ceisiadau am gontractau mwy yn unig. Er mwyn caniatáu amser i baratoi consortia neu gyflwyniadau cydweithredol y bydd y cyngor yn anelu at ddarparu digon o wybodaeth i gyflenwyr cyn i'r broses dendro ddechrau.

Rydym yn annog BBaChau a'r trydydd sector i chwilio am gyfleoedd is-gontractio ac adeiladu perthnasoedd â phrif gontractwyr. Gall prif gontractwyr helpu i wneud cyfleoedd cadwyn gyflenwi yn weladwy trwy hysbysebu ar GwerthwchiGymru neu drwy ddigwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr.

Mae cymorth ar gael gan nifer o sefydliadau. Am ragor o wybodaeth ewch i'r adran **'Cymorth pellach'.**

**“Cydnabyddwn bod angen i ni barhau i wneud defnydd doeth o'n hadnoddau, edrych ar wahanol ffyrdd o ddarparu gwasanaethau, croesawu technoleg a gweithio gyda phartneriaid a'n cymunedau i ddarparu gwasanaethau sy'n gynaliadwy yn ariannol"**

## A all sefydliadau tendro dderbyn ôl- drafodaeth (adborth)?

Nod Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yw cynnig adborth i dendrau llwyddiannus ac aflwyddiannus i'w helpu i wella ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol. Lle bo'n briodol, mae'n debygol y rhoddir ôl-drafodaeth ysgrifenedig fel rhan o'r llythyr sy'n hysbysu'r sawl sy'n tendro ei fod yn aflwyddiannus. Gellir darparu rhagor o wybodaeth drwy Microsoft Teams, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb cyhyd â bod y cais am ôl-drafodaeth yn cael ei gyflwyno'n ysgrifenedig (drwy eDendroCymru).



## Sut mae'r cyngor yn talu eu cyflenwyr?

Mae telerau talu wedi'u nodi yn nogfennau'r contract. Fel arfer, mae'r taliad o fewn 30 niwrnod gwaith ar ôl i'r cyngor dderbyn anfoneb ddilys. Dull talu'r cyngor yw drwy drosglwyddiad BACS, a bydd gofyn i gyflenwyr gyflwyno manylion cyfrifon banc i'r cyngor.

Er mwyn sicrhau bod anfonebau'n cael eu talu'n brydlon, dylai cyflenwyr sicrhau eu bod yn cyflwyno anfoneb gyda rhif archeb brynu dilys. Gallai methu â gwneud hynny arwain at oedi o ran derbyn taliad. Felly, dylai cyflenwyr fynnu derbyn archeb brynu dilys gan y person o fewn y cyngor a gododd yr archeb.

## Rheoli a Monitro Contractau

Disgwylir i gyflenwyr a chontractwyr gyflawni eu rhwymedigaethau i ddarparu'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith yn unol â'r gofynion a nodir yn nogfennaeth y contract a dangos gwerth am arian. Bydd y cyngor yn ymdrechu i sicrhau bod perthynas waith agored ac adeiladol dda gyda'i gyflenwyr a'i gontractwyr, a fydd hefyd yn helpu i nodi a datrys unrhyw broblemau cyn gynted â phosib.

# Cyngor ar dendro

## DYLECH...

- Wirio’r amser a'r dyddiad cau ar gyfer dychwelyd tendrau. Gwneud yn siŵr eich bod yn neilltuo digon o amser i lenwi'r ddogfennaeth.
- Gwneud yn siŵr eich bod yn ateb y cwestiynau fel y'u gosodwyd, gan roi manylion y gofynion penodol a darparu tystiolaeth fel y nodir yn y canllawiau.
- Gofyn am eglurhad **cyn y dyddiad cau o**s ydych yn ansicr ynghylch unrhyw ran o'r fanyleb neu os oes gennych ymholiadau cyffredinol mewn perthynas â dogfennau tendro, gan gynnwys telerau ac amodau'r contract.
  Rhaid cyflwyno ymholiadau sy’n ymwneud ag eglurhad drwy eDendroCymru.

## NI DDYLECH…

- Ddychwelyd eich tendr ar ôl y dyddiad neu'r amser gan **na fydd tendrau hwyr yn cael eu hystyried oni bai mewn amgylchiadau eithriadol**.
- Peidiwch ag ‘osgoi' y cwestiynau fel y gallwch gynnwys yr hyn rydych chi ei eisiau yn eich ymateb, dim ond gwybodaeth yr ydym wedi gofyn amdani y gallwn ei gwerthuso.
- Peidiwch â chael eich digalonni gan y dogfennau, ceisiwch gymorth, e.e. gan ymgynghorwyr tendr, mynd i ddigwyddiadau cwrdd â'r prynwr.
- Peidiwch â chyflwyno prisiau sydd mor isel, os dyfernir y contract, ni allwch gyflenwi'r nwyddau / y gwasanaethau am y pris hwnnw i'r ansawdd a nodwyd.

**Mae gan y cyngor yr hawl i beidio â derbyn unrhyw dendr a fydd yn anymarferol yn ein barn ni.**

# Cymorth

Mae **Gwasanaeth Tendro Busnes Cymru** yn cefnogi busnesau yn eu hymdrechion i dendro am gontractau sector preifat, neu i'w helpu i lywio drwy'r broses dendro ar gyfer contractau sector cyhoeddus. Gall Ymgynghorwyr Arbenigol Busnes Cymru:

- Ganolbwyntio ar fod yn fwy rhagweithiol cyn tendrau byw i bartneriaid a chleientiaid, er mwyn canolbwyntio ar gynorthwyo twf BBaChautwf i fod yn 'barod i gyflwyno tendr'.
- Gweithio'n agos gyda phrynwyr, yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, ac asesu pecyn cymorth priodol.
- Cynnal digwyddiadau briffio contractwyr, lle bo'n berthnasol ar sail 1 i 1 ar gyfer tendrau dethol.
- Darparu mynediad i ddosbarthiadau meistr ar gyfer BBaChau mwy sy'n tyfu. Bydd hwn yn weithdy mwy manwl a fydd yn helpu'r cleientiaid hyn i gynllunio strategaethau ar gyfer tendro, gwella ansawdd eu hymatebion, mireinio'r ffordd y maent yn ymateb i dendrau i wella'r siawns o lwyddo. Bydd yr ymgynghorwyr yn ennyn cefnogaeth ymgynghorwyr arbenigol eraill Busnes Cymru (Adnoddau ac Effeithlonrwydd a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth) i ddarparu rhan o becyn cymorth i sicrhau bod y BBaCh yn 'barod i gyflwyno tendr.'
- Darparu mynediad at sesiynau briffio ynghylch y polisïau a'r achrediadau perthnasol angenrheidiol.
- Hefyd yn cyfrannu at ddatblygu'r gadwyn gyflenwi leol ar gyfer cwmnïau Haen 1 mwy.

Bydd ymgynghorwyr arbenigol Busnes Cymru yn cynnal diagnosis ar y BBaCh sy'n tyfu yn ystod cyfarfod wyneb yn wyneb, gan arwain at argymhellion gweithredu i wella prosesau tendro a'r siawns o lwyddo, gan ysgogi twf yn y pen draw trwy ennill tendrau.

Cynhelir digwyddiadau **Cwrdd â'r Prynwr** gan y cyngor i ddarparu gwybodaeth i gyflenwyr am gyfleoedd contract a'r broses dendro. Gallant hefyd roi cyfle i gyflenwyr gwrdd â'r prif gontractwyr i gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd cadwyn gyflenwi/is-gontractio posib.

Gall **Tîm Datblygu Economaidd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr** ddarparu cymorth a chyngor busnes i helpu BBaChau i sicrhau cymorth ariannol.

Mae gan **Ganolfan Cydweithredol Cymru** dîm arbenigol a all helpu sefydliadau i ddatblygu consortia. Gall y tîm ddarparu cymorth ar sut i strwythuro eich consortiwm a gallant roi cyngor ar lywodraethu a materion cyfreithiol a allai effeithio arnoch chi.

**Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer y sefydliadau uchod ar ddiwedd y canllaw hwn.**

# Hoffem glywed gennych

Nod y canllaw hwn yw rhoi dealltwriaeth gliriach i sefydliadau sydd am weithio gyda Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr o sut i wneud cais am waith a'r hyn y gellir ei ofyn ganddynt fel cyflenwr neu gontractwr.

Hoffem dderbyn eich adborth ar sut y gallem wella'r canllaw hwn, pa wybodaeth rydych chi'n teimlo sydd ar goll ac a oes unrhyw beth yr hoffech ei weld yn cael ei gynnwys.

Hoffem hefyd dderbyn eich adborth o ran eich profiad o wneud busnes gyda'r cyngor, y gwasanaeth a ddarperir gan y Tîm Caffael ac unrhyw faterion neu broblemau yr ydych wedi dod ar eu traws.

E-bostiwch eich sylwadau at: **srm@bridgend.gov.uk**

# Gwefannau

| Sefydliad | Gwefan |
|---|---|
| Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr - Caffael | https://www.bridgend.gov.uk/business/tenders-and-procurement |
| Datganiad Caethwasiaeth Fodern Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr | https://www.bridgend.gov.uk/media/imlf3ydj/modern-slavery-statement.pdf |
| Rheolau'r Weithdrefn Gontractau | https://www.bridgend.gov.uk/media/yudbxol3/contract-procedure-rules.pdf |
| Cofrestr Contractau | https://www.bridgend.gov.uk/media/5388/copy-of contract-list-eng.pdf |
| GwerthwchiGymru | www.gwerthwchigymru.llyw.cymru |
| eDendroCymru | https://etenderwales.bravosolution.co.uk/cym/login.shtml |
| Constructionline | http://www.constructionline.co.uk |
| Tendrau Electronig Daily (TED) | http://www.findatenderservice.co.uk |
| Gwefan Gwybodaeth Sector Cyhoeddus y Deyrnas Unedig | http://www.gov.uk |
| Working Links | |
| PDF Rheoliadau Contractau Cyhoeddus | http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/102/pdfs/uksi_20150102_en.pdf |
| Gwasanaeth Masnachol y Goron | https://www.gov.uk/government/organisations/crown-commercial-service |
| Sefydliad Prynu Eastern Shires (ESPO) | http://www.espo.org |
| Cyflawni Masnachol Llywodraeth Cymru (GCC gynt) | https://www.llyw.cymru/piblinell-gaffael-ar-gyfer-sector-cyhoeddus-cymru? |

# Cysylltiadau

| Sefydliad | Manylion cyswllt | Ffôn | E-bost | Gwefan |
|---|---|---|---|---|
| Tîm Caffael CBSP | | 01656 643643 | procurementteam@bridgend.gov.uk | https://www.bridgend.gov.uk/business/tenders-and-procurement |
| Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr | | 01656 815320 | business@bridgend.gov.uk | https://www.bridgend.gov.uk/business/bridgend-business-forum/ |
| Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) | | 01656 810400 | bavo@bavo.org.uk | https://www.bavo.org.uk/cy/ |
| Busnes Cymru | | 030 0060 3000 | | https://businesswales.gov.wales/cy |
| Canolfan Cydweithredol Cymru | | 0300 111 5050 | info@walescooperative.org | |
| Busnes mewn ffocws | Gwasanaethau Cwsmeriaid | 0870 950 90 90 | enquiries@businessinfocus.co.uk | www.businessinfocus.co.uk/cy/ |
| Ffederasiwn Busnesau Bach | Gwasanaethau Cwsmeriaid | 0292 0747 406 | wales.policy@fsb.org.uk | https://www.fsb.org.uk/ |
| Ffederasiwn y Prif Adeiladwyr | Prif Swyddfa Cymru Ymuno â'r Ffederasiwn y Prif Adeiladwyr | 01656 750955<br>020 7242 7583<br>08000 965 765 | richardjenkins@fmb.org.uk | www.fmb.org.uk/about-fmb/fmbregions/ |